# CHAPTER

# SWYDDOG MARCHNATA A CHYFATHREBU

## Disgrifiad swydd

| | |
|---|---|
| Contract: | Parhaol, llawn amser (yn amodol ar gyfnod prawf o chwe mis) Rydyn ni'n agored i gynigion i rannu'r swydd neu fodelau cydweithredol. |
| Yn atebol i: | Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu |
| Yn gyfrifol am: | – |
| Cyflog: | £27,248 |
| Oriau: | 40 awr yr wythnos (TOIL). Bydd angen gweithio ar y penwythnos a gyda'r nos yn amodol ar anghenion y rhaglen. |
| Lleoliad: | Bydd deiliad y swydd wedi'u lleoli yn y swyddfa yn Chapter yng Nghaerdydd, ond bydd disgwyl iddynt dreulio rhywfaint o amser yn gweithio oddi ar y safle. Rydyn ni'n cynnig model hybrid sy'n golygu y gallwch weithio gartref hefyd pan fo'n bosib. |

## DIBEN Y SWYDD

Bydd y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu yn gweithio gyda'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu i gyflawni strategaeth gyfathrebu sy'n ehangu amcanion datblygu cynulleidfaoedd Chapter.

Mae'r swydd yn cynnwys elfennau o farchnata, ysgrifennu copi, cyfryngau cymdeithasol, dadansoddi data, golygu a chynhyrchu fideo. Byddwch yn chwaraewr tîm, ond byddwch hefyd yn gallu gweithio ar eich menter eich hunan, gan ragweld heriau a darparu atebion effeithiol.




Rosa-Johan Uddoh: Ye Olde Group Chat, 2023
Llun gan Simon Ayre

## YNGLŶN Â CHAPTER

Canolfan ryngwladol ar gyfer diwylliant a chelfyddydau cyfoes yw Chapter, sydd â'i gwreiddiau yng nghanol Caerdydd. Cafodd ei sefydlu gan artistiaid yn 1971 i ddathlu arbrofi a meddwl radical, ac rydyn ni wedi bod yn sbardun ar gyfer creadigrwydd a meddwl beirniadol byth ers hynny.

Rydyn ni'n comisiynu ac yn cyflwyno arddangosfeydd, ffilmiau, perfformiadau a digwyddiadau amlddisgyblaethol sy'n ysgogi'r meddwl gan artistiaid cyfoes newydd a sefydledig sy'n ehangu ein bydolwg ac yn herio'r status quo. Gan groesawu safbwyntiau niferus ac amrywiol, cymryd risgiau ac arbrofi, mae ein rhaglen yn annog sgyrsiau sy'n croesi ffiniau a disgyblaethau.

Mae'r artistiaid rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn mynd ati i ystyried materion a chwestiynau hanfodol sy'n siapio ein presennol, ac rydyn ni'n meithrin deialog rhwng cynulleidfaoedd ac artistiaid drwy raglen gyhoeddus sy'n cynnig cyfleoedd i gysylltu drwy ein hanes, y ffordd rydyn ni'n byw nawr, a sut gallen ni ddychmygu dyfodol newydd.

Mae artistiaid a chynulleidfaoedd wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud, ac ochr yn ochr â'n rhaglen gelfyddydau gyhoeddus yn ein horiel, ein theatrau a'n sinemâu, rydyn ni hefyd yn gartref creadigol i 53 o artistiaid a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn ein stiwdios, yn cynnig gofodau i ystod o ddosbarthiadau wythnosol a misol, ac yn cynnal caffi bar prysur sy'n lle gwych i gwrdd a gweithio. Mae ein rôl fel canolbwynt cymunedol mor bwysig i ni â'n rhaglen o safon fyd-eang.

Rydyn ni'n credu mewn mynediad teg at ddiwylliant a bod gan y celfyddydau y pŵer i'n cysylltu ni i gyd mewn deialog o gwmpas profiadau amrywiol a dyheadau a rennir, i gefnogi iechyd a llesiant, ac i gyfrannu at gymdeithas fwy chwilfrydig a chydlynol.

# MEYSYDD CYFRIFOLDEB A THASGAU ALLWEDDOL

Mae'r tîm Marchnata a Chyfathrebu yn gyfrifol am wella proffil y sefydliad, cynyddu ac amrywio ei gynulleidfaoedd, gyrru gwerthiannau a rhoddion a darparu cynnwys.

Gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, byddwch yn gweithio ar draws holl weithgarwch Chapter i gyflawni'r strategaeth gyfathrebu drwy ymgyrchoedd uchelgeisiol.

Bydd gennych lygad graff am fanylion a byddwch yn hyrwyddo arloesedd ac arbrofi yn y sefydliad. Byddwch yn hyrwyddwr ac yn warcheidwad i'r brand a byddwch yn sicrhau bod cynhwysiant a thegwch yn ganolog i'n gweithgarwch cyfathrebu a marchnata.

Byddwch yn gyfrifol am y meysydd canlynol:

## Ymgyrchoedd

- Sicrhau bod yr holl ymgyrchoedd yn cyfrannu at ein blaenoriaethau artistig, gwaith datblygu cynulleidfaoedd ac amcanion a thargedau codi arian.
- Gweithio gyda'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu ar ddatblygu cynlluniau ymgyrchoedd a chyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- Monitro, gwerthuso ac adrodd ar weithgarwch ac ymgyrchoedd yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt, gan ddefnyddio dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol a data tocynnau.
- Cyd-drafod yn agos gyda'r timau rhaglennu, codi arian a chyflawni prosiectau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am ymgyrchoedd yn gywir, yn ddeniadol ac yn cyfleu negeseuon allweddol.
- Adnabod cyfleoedd yn weithgar ar gyfer cynnig a gweithgareddau hyrwyddo ymchwiliadol rhwng adrannau.
- Rhannu gwybodaeth am ein rhaglen ar safleoedd rhestru perthnasol e.e. Hwb Celfyddydau Anabledd Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

## Cynnwys

- Creu a chyflwyno cynnwys deinamig i adrodd straeon diddorol am Chapter, ei gwerthoedd a'i chymuned greadigol.
- Creu copi cryno a deniadol, gan sicrhau cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac amrywio'r tôn a'r neges yn ôl y gynulleidfa darged.
- Rheoli dyddiadur cynnwys er mwyn cynllunio cynnwys rheolaidd ochr yn ochr â hysbysiadau, gan sicrhau bod ein cyfathrebiadau'n ymatebol o ran negeseuon allweddol a digwyddiadau lle mae pethau'n symud yn gyflym.
- Mynd ati'n rhagweithiol i gael ac annog cyfraniadau cynnwys gan staff, gwirfoddolwyr a chyfranwyr allanol (artistiaid, awduron, curaduron, y gymuned greadigol).
- Cyd-drafod â chyflenwyr ac asiantaethau, gan gynnwys dosbarthwyr, dylunwyr a ffotograffwyr er mwyn cael gafael ar asedau a rhoi trefn arnynt.
- Rheoli arddangosfa blaen y tŷ gan gynnwys sgriniau arddangos marchnata digidol.

## Cyfryngau cymdeithasol

- Creu, trefnu a monitro ein gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol ar draws pob llwyfan er mwyn cyflawni nodau.
- Datblygu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu â chynulleidfaoedd a chyfleu ein gwerthoedd a'n negeseuon allweddol.
- Monitro dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol, a chofnodi, defnyddio ac adrodd ar y data er mwyn llywio cynnwys yn y dyfodol.

## Y wefan

- Sicrhau bod ein gwefan bob amser yn gyfredol, yn gywir ac yn ddeniadol.
- Dyfeisio dulliau o arddangos, hyrwyddo a gwerthu ein digwyddiadau yn effeithiol ac o gyfleu ein gwerthoedd craidd.
- Gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd Systemau Tocynnau i sicrhau bod integreiddio di-dor rhwng y system docynnau a'r wefan.

## Marchnata dros e-bost

- Cydlynu a chreu cylchlythyrau ac ymgyrchoedd e-bost wedi'u targedu am ddigwyddiadau, gan gyd-drafod ag aelodau penodol o'r tîm i wirio bod y copi a'r negeseuon yn gywir ac yn briodol.

## Cyfathrebu gwaith codi arian a datblygu busnes

- Cynorthwyo'r tîm Codi Arian i ymgysylltu â Ffrindiau Chapter, Clwb Chapter a grwpiau blaenoriaeth eraill gan gynnwys drwy waith cyfathrebu e-bost uniongyrchol.

Nid yw'r disgrifiad swydd yma'n hollgynhwysfawr, a bydd disgwyl i chi fod ag agwedd hyblyg tuag at eich dyletswyddau, gan ei bod yn bosib y bydd angen eu hamrywio yn amodol ar anghenion y sefydliad, ac yn unol â phroffil cyffredinol y swydd.

# MANYLEB YR UNIGOLYN

Rydyn ni'n chwilio am Swyddog Marchnata a Chyfathrebu gyda'r nodweddion canlynol:

## Hanfodol

- O leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn rôl debyg mewn canolfan gelfyddydau, sefydliad elusennol, neu swydd lawrydd gyfwerth.
- Profiad amlwg o greu cynnwys diddorol a pherswadiol mewn ystod o fformatau.
- Profiad amlwg o reoli llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar ran sefydliad neu frand.
- Dealltwriaeth eang o sut gall marchnata helpu i ddatblygu cynulleidfaoedd yn ogystal â chyrraedd targedau gwerthu tocynnau, codi arian a rhoddion.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i feithrin perthnasau gydag ystod o gydweithwyr, rhanddeiliaid a chynulleidfaoedd.
- Profiad o ddefnyddio data a dadansoddeg i lywio a gwella strategaeth farchnata.
- Sgiliau trefnu cryf gyda'r gallu i flaenoriaethu, cyflawni amcanion, a gweithio yn ôl terfynau amser.
- Dull rhagweithiol, brwdfrydig a'r gallu i ddatrys problemau'n bwyllog ac yn effeithiol.
- Agwedd gydweithredol a'r gallu i gyfrannu'n greadigol mewn amgylchedd tîm.
- Ymrwymiad i arferion gweithio teg a chynhwysol.
- Dealltwriaeth o dirlun creadigol Cymru a/neu ddiddordeb ynddo.

## Dymunol

- Gallu cyfathrebu yn Gymraeg.
- Dealltwriaeth a diddordeb mewn tueddiadau ym maes cyfathrebu a marchnata.
- Profiad o segmentu cynulleidfaoedd, gan ddefnyddio Audience Agency Spectrum neu ddulliau sefydledig eraill.
- Dealltwriaeth o lwyfannau tocynnau a Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) fel Ticketsolve neu Spektrix.
- Dealltwriaeth o GDPR a deddfwriaeth diogelu data.
- Defnydd effeithiol o Systemau Rheoli Cynnwys (CMS) fel Craft.
- Profiadol wrth ddefnyddio Adobe Photoshop, Illustrator a rhaglenni dylunio eraill.



The Writer's Circle, Experimentica, 2024
Llun gan Kirsten McTernan

## YNGLŶN Â'R BUDDION

Mae Chapter yn gyflogwr hyblyg a chyfeillgar, ac yn cynnig oriau gweithio hyblyg a gweithio hybrid. Mae'r Manteision i Staff yn cynnwys:

- 5.6 wythnos o wyliau y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau banc, pro rata ar gyfer swyddi rhan amser.
- Cynllun pensiwn cyfrannol, a byddwch yn cael eich ymrestru iddo'n awtomatig (yn dibynnu ar amodau'r cynllun). Mae'r cynllun yn eich galluogi i gynilo ar gyfer eich ymddeoliad gan ddefnyddio eich arian eich hunan, ynghyd â rhyddhad treth a chyfraniadau gan y cwmni.
- 20% oddi ar fwyd a diod yn y caffi/bar
- Tâl Mamolaeth a Mabwysiadu uwch ar ôl blwyddyn o wasanaeth (yn dibynnu ar amodau'r cynllun).
- Cynllun Cymraeg Gwaith
- Dau docyn sinema am ddim y mis
- Gostyngiad ar docynnau sinema a theatr
- Mynediad at Raglen Cynorthwyo Gweithwyr
- Te a coffi canmoliaethus
- Cinio am ddim pan fyddwch yn gweithio yn yr adeilad
- Cefnogaeth ar gyfer datblygiad parhaus
- Gofal Llygaid am DSE
- Raciau beic diogel
- Parcio staff
- Digwyddiadau cymdeithasol i'r staff